# Gweithdrefn Gwyno

# Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed–Powys

| Rheoli dogfennau | |
|---|---|
| **Rhif y fersiwn** | **1** |
| **Awdur** | **Donna Cronin, Pennaeth Sicrwydd** |
| **Dyddiad gweithredu** | **Hydref 2022** |
| **Cylch Adolygu** | **Pob 2 flwyddyn** |
| **Awdurdodwyd gan** | **Carys Morgans, Chief Executive and Monitoring Officer** |

| Rheoli fersiwn | | | |
|---|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Diwygiwyd gan** | **Rheswm dros welliant** |
| 1.0 | 24.04.2024 | Donna Cronin, Pennaeth Sicrwydd | Ychwanegodd rheoli dogfennau a fersiwn. |
| 1.1 | 24.04.2024 | Donna Cronin, Pennaeth Sicrwydd | Adolygu Dogfennau, dim angen diwygiadau pellach amendments required |

## Cynnwys


1.0 Rhagymadrodd ..... 3

2.0 Nodau ac amcanion ..... 3

3.0 Cwynion yn erbyn staff/swyddogion islaw rheng Prif Gwnstabl ..... 3

4.0 Cwynion am y Prif Gwnstabl ..... 4

5.0 Cwynion yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ..... 4

6.0 Cwynion yn erbyn y Prif Weithredwr ..... 4

7.0 Staff Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ..... 5

8.0 Adolygiadau Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ..... 5

9.0 Apêl Sbardun Cymunedol ..... 6

10.0 Cwynion am Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ..... 7

11.0 Cwynion Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ..... 7

12.0 Safon Gymraeg ..... 8

13.0 Ymdrin â’ch cwyn ..... 8

14.0 Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ..... 9

15.0 Craffu ar gwynion ..... 10

16.0 Camddefnyddio’r system gwynion ..... 10

17.0 Hygyrchedd ..... 11

## 1.0 Rhagymadrodd

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu dair prif ddyletswydd mewn perthynas â chwynion heddlu, fel yr amlinellir isod:

1. Awdurdod priodol i ystyried cwynion am y Prif Gwnstabl
2. Dyletswydd i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif wrth ddarparu proses gwyno effeithiol ac effeithlon
3. Corff adolygu perthnasol ar gyfer rhai cwynion heddlu

## 2.0 Nodau ac amcanion

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddyletswydd statudol i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif o ran sut y mae'n ymdrin â chwynion yn lleol. Mae'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn cael effaith sylweddol ar hyder yn yr heddlu. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi gosod polisi clir o gymryd pob cwyn o ddifrif ac mae'n mynd ar drywydd hyn drwy'r prosesau a nodir mewn deddfwriaeth a osodwyd gan y Senedd ac a oruchwylir gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Y nod yw gwella gwasanaeth yr heddlu a pherfformiad unigolion trwy ddysgu a chywiro pethau pan fyddant wedi mynd o chwith.

## 3.0 Cwynion yn erbyn staff/swyddogion islaw rheng Prif Gwnstabl

**<u>Nid</u>** y Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gwynion yn erbyn swyddogion heddlu/staff islaw rheng Prif Gwnstabl.

Cyfeirir cwynion yn erbyn swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu at Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys i'w hystyried yn unol â'r gyfraith a gofynion Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Cwynion | Heddlu Dyfed-Powys

- Ac eithrio cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl, nid yw'r Comisiynydd yn uniongyrchol gyfrifol am unrhyw ymchwiliadau. Fodd bynnag, mae'n cadw trosolwg o effeithlonrwydd y broses, trwy adroddiadau perfformiad a gwiriadau *"sampl"*, ac mae'n gweithio gyda Chyfarwyddwr Cymreig Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar wiriadau a heriau priodol i sicrhau bod y system mor effeithiol ac amserol â phosibl.

## 4.0 Cwynion am y Prif Gwnstabl

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed–Powys yn statudol gyfrifol am ystyried cwynion a wneir yn erbyn Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed–Powys. Swyddogaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd yw sicrhau yr ymdrinnir â'r cwynion hynny mewn modd rhesymol a chymesur.

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yw'r corff adolygu perthnasol ar gyfer y cwynion hyn.

Er mwyn gwneud cwyn yn erbyn y Prif Gwnstabl, rhaid i chi fod yn gymwys i fod yn achwynydd. Diffinnir hyn gan y ddeddfwriaeth fel rhywun sydd wedi bod yn dyst i'r digwyddiad yn uniongyrchol neu y mae'n effeithio'n uniongyrchol arno. Gellir codi cwynion gan bobl eraill ar eu rhan, ond dim ond gyda'u caniatâd ysgrifenedig. Felly, os nad effeithiwyd yn uniongyrchol arnoch, neu os nad oeddech yn bresennol yn y digwyddiad y mae gennych bryderon yn ei gylch, ni allwch ddefnyddio system gwynion yr heddlu i leisio'ch pryderon. Gallwch barhau i wneud eich pryderon yn hysbys i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu neu'r heddlu fel rhan o adborth cyffredinol. Ceir rhagor o fanylion sy'n egluro cymhwysedd yng nghanllawiau statudol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu: https://policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/statutoryguidance/2020_statutory_guidance_english.pdf.

## 5.0 Cwynion yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Os ydych yn dymuno cwyno am y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, cysylltwch â Phanel Heddlu a Throseddu Dyfed–Powys. https://www.panelheddluathroseddudp.cymru/cartref/

### 6.0 Cwynion yn erbyn y Prif Weithredwr

Dylid gwneud cwynion yn erbyn y Prif Weithredwr yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Ymdrinnir â'r rhain yn unol â'n polisi [Strategaethau a pholisïau (dyfedpowys-pcc.org.uk)](dyfedpowys-pcc.org.uk). Gallwch gyflwyno'ch cwyn trwy e-bost i **opcc@dyfed-powys.police.uk** neu yn ysgrifenedig at y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Blwch SP 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF. Neu gallwch ffonio'r swyddfa ar 01267 226440.

Mae gan y Comisiynydd yr opsiwn i ddirprwyo ymchwiliad i'r gŵyn i unrhyw unigolyn y mae'n teimlo sy'n briodol.

## 7.0 Staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Dylid cyfeirio cwynion am aelodau staff yn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu at Brif Weithredwr y Swyddfa drwy e-bost: **opcc@dyfed-powys.police.uk** neu yn ysgrifenedig at Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Blwch SP 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF.

Fel arall, gallwch ffonio'r swyddfa ar 01267 226440. Ymdrinnir â'r rhain yn unol â'n polisi [Strategaethau a pholisïau (dyfedpowys-pcc.org.uk)](dyfedpowys-pcc.org.uk).

Rhai manylion y gallech fod yn dymuno eu cynnwys yn hyn yw fel a ganlyn:
- Enw'r aelod staff yr ydych yn cwyno amdano
- Pryd y digwyddodd y digwyddiad
- Yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y digwyddiad
- Yr hyn a wnaed
- A oedd unrhyw dystion annibynnol ac, os felly, sut neu ble y gellir cysylltu â nhw
- Pa brawf sy'n bodoli o unrhyw ddifrod neu anaf

## 8.0 Adolygiadau Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Nid yw rôl Swyddfa'r Comisiynydd mewn perthynas â 'Chais am Adolygiad' o gŵyn, yn dilyn y canlyniad a ddarparwyd gan yr Adran Safonau Proffesiynol, yn cynnwys ailymchwilio i'ch cwyn, ond mae'n cynnwys ystyried y canlynol yn ddiduedd:

1. A oedd eich cais am adolygiad yn ddilys
2. A oedd canlyniad eich cwyn yn rhesymol ac yn gymesur
3. Unrhyw argymhellion y dylid eu gwneud i'r Heddlu o ganlyniad i'r modd yr ymdriniwyd â'ch cwyn a/neu ganlyniad eich cwyn

Dim ond achwynydd, neu rywun yn gweithredu ar ei ran, a all wneud cais am adolygiad mewn perthynas â chwyn. Rhaid eich bod wedi cael hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad eich cwyn cyn i chi wneud cais am adolygiad.

**Rhaid i'ch cais am adolygiad gyrraedd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu o fewn 28 diwrnod i drannoeth y dyddiad a nodir ar eich llythyr canlyniad gan Heddlu Dyfed–Powys**. Er enghraifft, os yw eich llythyr yn ddyddiedig 1 Ebrill, rhaid i chi sicrhau bod eich cais yn dod i law i'w adolygu erbyn 29 Ebrill.

**Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth yn fy ffurflen adolygu?** Bydd yr wybodaeth a rowch ar y ffurflen hon yn cael ei rhoi yn ein systemau. Efallai y bydd angen i ni hefyd drosglwyddo manylion eich adolygiad i Heddlu Dyfed-Powys a/neu adolygydd annibynnol a fydd yn ystyried eich adolygiad ac yn gwneud argymhellion i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Nodwch: Gellir trosglwyddo holl gynnwys y ffurflen hon (gan gynnwys eich gwybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth) i Heddlu Dyfed-Powys a'r adolygydd annibynnol.

## 9.0 Apêl Sbardun Cymunedol

(Adran 104, Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014)

Ffurflen Apêl Sbardun Cymunedol

Os nad yw dioddefwr/dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fodlon ar yr ymateb a gawsant gan Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed–Powys, gellir uwchgyfeirio sbardun cymunedol i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu pan fodlonir un o'r mesurau canlynol:

**Mesurau:**

1. Os yw penderfyniad a ddarparwyd sy'n amlinellu pam na chyrhaeddodd yr achos y trothwy ar gyfer adolygiad sbardun cymunedol wedi methu â darparu digon o fanylion i ddeall pam na chynhaliwyd adolygiad.
2. Os yw'r adolygiad sbardun cymunedol wedi methu ag ystyried proses, polisi neu brotocol perthnasol.
3. Os yw'r adolygiad sbardun cymunedol wedi methu ag ystyried gwybodaeth ffeithiol berthnasol. **Nodwch**: Yn ystod adolygiad achos, efallai y bydd y defnydd o offeryn gorfodi penodol wedi cael ei ystyried. Wrth ystyried y ffeithiau a'r protocolau perthnasol, efallai y penderfynwyd na fyddai'n briodol defnyddio'r offeryn gorfodi hwnnw. Os yw offeryn gorfodi wedi'i ystyried a'r canlyniad wedi'i esbonio i'r dioddefwr ymddygiad gwrthgymdeithasol, yna ni ellir uwchgyfeirio adolygiad sbardun cymunedol i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu oherwydd bod y dioddefwr yn anfodlon ar ganlyniad y penderfyniad ynghylch yr offeryn gorfodi. Rôl Swyddfa'r Comisiynydd fydd ystyried y broses briodol a sicrhau bod Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed–Powys wedi cynnal adolygiad priodol ac effeithiol. Wrth ystyried uwchgyfeirio sbardun cymunedol, gall Swyddfa'r Comisiynydd naill ai:

**Canlyniad:**

1. Cadarnhau'r apêl a chyfeirio'r achos yn ôl i Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed–Powys gan ofyn iddynt ystyried proses, polisi neu brotocol penodol nas ystyriwyd yn flaenorol.
2. Cadarnhau'r apêl, gan amlinellu'r wybodaeth ffeithiol berthnasol sydd heb ei hystyried gan Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed–Powys wrth ddod i benderfyniad.
3. Peidio â chadarnhau'r apêl, h.y. penderfynu bod Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed–Powys wedi adolygu'r achos drwy ystyried yr holl wybodaeth ffeithiol, polisïau, prosesau a phrotocolau perthnasol yn foddhaol yn unol â'i Weithdrefn Sbardun Cymunedol ac wedi dod i benderfyniad gwybodus. Yn ei hanfod, adolygiad pen desg fydd y broses apelio ac ni fydd yn cynnwys gwrandawiadau na chyfarfodydd gyda dioddefwr/dioddefwyr. Pe bai'r dioddefwr yn dymuno defnyddio'r weithdrefn apêl, dylid gwneud y cais hwn yn uniongyrchol i Swyddfa'r Comisiynydd o fewn 28 diwrnod i dderbyn canlyniad cais sbardun cymunedol gan Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed–Powys. Mae angen cyflwyno'r holl waith papur perthnasol ynghyd â sail yr apêl (h.y. pam nad yw mesurau 1, 2 neu 3 wedi'u bodloni). Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn ymgymryd â'r apêl ac yn hysbysu'r dioddefwr/dioddefwyr o'r canlyniad (naill ai 1, 2 neu 3 uchod) cyn gynted â phosibl, ac ym mhob achos o fewn 30 diwrnod gwaith.

Nodwch: Mae penderfyniad Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn derfynol ac ni ellir apelio yn ei erbyn.

## 10.0 Cwynion am Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Os ydych yn dymuno cwyno am ymddygiad ymwelydd annibynnol â dalfeydd, cysylltwch â'r Prif Weithredwr naill ai'n ysgrifenedig neu drwy e-bost yn y cyfeiriad canlynol: Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Blwch SP 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF. Neu gallwch ffonio'r swyddfa ar 01267 226440.

E-bost: **opcc@dyfed-powys.police.uk**

## 11.0 Cwynion Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Gan fod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gorff cyhoeddus, gellir gwneud ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â gwybodaeth a gedwir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Os nad ydych yn hapus ag ymateb a wnaed i gais Rhyddid Gwybodaeth neu os ydych yn teimlo bod y Comisiynydd wedi methu yn ei rwymedigaethau i fodloni eich cais Rhyddid Gwybodaeth, gallwch gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y manylir isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6241

E-bost:
**cymru@ico.org.uk**

## 12.0 Safon Gymraeg

Yr ydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon uchel i'n holl gwsmeriaid mewn ffordd deg a chyfartal.

Pa un ai a ydych chi'n anfodlon â'r gwasanaeth yr ydych wedi'i dderbyn neu wedi derbyn gwasanaeth ardderchog, hoffem wybod amdano.

Dylid cyfeirio cwynion ynglŷn â'n gwasanaeth Cymraeg at Bennaeth Staff SCHTh drwy anfon e-bost at **opcc@dyfed-powys.police.uk** neu drwy anfon llythyr at SCHTh, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF. Fel arall, cewch alw'r swyddfa ar 01267 226440. Bydd y rhain yn cael eu trin yn unol â'n polisi.

*Os ydych yn unhapus efo'r ymateb a gawsoch, gallwch gyflwyno cwyn bellach i Gomisiynydd y Gymraeg. Mae fwy o wybodaeth ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.*

## 13.0 Ymdrin â'ch cwyn

Beth i'w ddisgwyl. Bydd yr awdurdod priodol yn adolygu'r gŵyn ac yn penderfynu ar y camau gweithredu perthnasol i'w cymryd.

Yr opsiynau yw:-

• Os na nodir unrhyw broblem perfformiad neu ymddygiad, ni chymerir unrhyw gamau pellach.

• Bydd yr awdurdod priodol yn ymdrin â'r gŵyn fel cam gweithredu gan reolwyr neu'n cyfeirio at y rheolwr llinell perthnasol fel y bo'n briodol.

• Os bydd yr awdurdod priodol o'r farn na ellir ymdrin â'r mater fel cam gweithredu gan reolwyr ac y gellir ei ystyried yn gamymddwyn, camymddwyn difrifol neu ymddygiad ar ddyletswydd, bydd yn cyfeirio'r mater at Bennaeth Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu ar gyfer asesiad ffurfiol ac ymchwiliad o bosibl.

• Os oes angen ar ymchwiliad, bydd cynllun yn cael ei lunio, a bydd camau gweithredu'n cael eu cofnodi wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo. Mae canlyniadau posibl cwyn yn cynnwys y canlynol, heb fod yn gyfyngedig iddynt:

• Ymddiheuriad a chamau gweithredu i atal hyn rhag digwydd eto

• Dysgu unigol a/neu sefydliadol

• Cyfeirio'r mater i'w drin o dan achosion troseddol, disgyblu neu berfformiad yn unol â rheoliadau Cyngor Staff yr Heddlu

• Peidio â chymryd unrhyw gamau pellach. Yr hyn y byddwn yn ei wneud: byddwn yn cofnodi'ch cwyn ar ein systemau ac yn rhoi cydnabyddiaeth i chi o fewn pum diwrnod gwaith. Byddwn hefyd yn rhoi manylion cyswllt y sawl a enwebwyd er mwyn rhoi gwybod i chi am unrhyw gynnydd. Ar yr un pryd, byddwn yn ceisio eglurhad i sicrhau ein bod yn deall eich cwyn yn iawn, y canlyniad yr ydych yn dymuno ei gael, ac unrhyw addasiadau y gall fod eu hangen i'ch galluogi i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses, yn ôl yr angen. Yn dibynnu ar natur eich cwyn, efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill fel Heddlu Gogledd Cymru er mwyn dod i ddatrysiad. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein hysbysiad preifatrwydd.

Byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig o ganlyniad eich cwyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Byddwch yn cael diweddariad ar gynnydd eich cwyn o leiaf bob 28 diwrnod. Bydd hwn yn cael ei anfon atoch yn yr un fformat ag y defnyddiwyd gennych i gysylltu â ni oni bai y cytunwyd fel arall.

Canlyniad eich cwyn. Byddwch yn cael llythyr gan y sawl sy'n ymchwilio i'ch cwyn i'ch hysbysu o'r canlyniad. Byddwn yn cynnwys esboniad o sut yr ymdriniwyd â'r mater, y camau a gymerwyd, a'r canfyddiadau. Os yw'n briodol, bydd hefyd yn cynnwys rhesymeg glir dros beidio â chymryd camau penodol. Bydd canlyniad eich cwyn yn derfynol – nid oes hawl i ofyn am adolygiad ar hyn o bryd.

## 14.0 Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)

Mewn rhai amgylchiadau, rhaid i gwynion a rhai materion eraill gael eu *"cyfeirio"* i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) i benderfynu sut y dylid ymchwilio iddynt. Os bydd yr IOPC yn penderfynu bod yn rhaid ymchwilio i'r mater, bydd yn penderfynu a fydd y dull ymchwilio naill ai'n ymchwiliad lleol (a gynhelir gan Heddlu Dyfed–Powys), yn ymchwiliad dan gyfarwyddyd (a gyflawnir gan Heddlu Dyfed–Powys dan reolaeth yr IOPC) neu'n ymchwiliad annibynnol (a gynhelir gan yr IOPC ei hun).

Cyfeiriad post: Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, Blwch SP 473, Sale, M33 0BW

Ffôn: 0300 020 0096

E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk

## 15.0 Craffu ar gwynion

Fel rhan o Orchymyn Protocol Plismona 2011, mae gofyniad i fonitro pob cwyn a wneir yn erbyn swyddogion a staff. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi creu fframwaith craffu cwynion sy'n darparu cynllun gweithredu mewn perthynas â monitro/archwilio materion cwynion yn fewnol, h.y. cwynion a godwyd gyda Swyddfa'r Comisiynydd, ac yn allanol, h.y. cwynion a godwyd gyda Heddlu Dyfed–Powys a/neu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Strategaethau a Pholisïau (dyfedpowys-pcc.org.uk)

## 16.0 Camddefnyddio'r system gwynion

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi mabwysiadu diffiniadau'r IOPC o'r mathau hyn o gwynion fel a ganlyn.

• Mae cwynion blinderus yn ddi-sail sydd â'r bwriad o beri pryder, poeni, cythruddo neu greu embaras, neu sy'n tueddu i wneud hynny.

• Mae cwyn ormesol heb sail ac â'r bwriad o arwain at , driniaeth feichus, lem neu anghyfiawn i'r sawl y cwynir yn ei erbyn, neu'n debygol o arwain at hynny.

• Camddefnydd o'r system gwynion yw lle mae, neu lle bu, camdriniaeth neu gamddefnydd o'r system gwynion i gychwyn neu symud cwyn yn ei blaen na ddylai, o dan holl amgylchiadau'r achos penodol, fod wedi'i gwneud neu na ddylid caniatáu iddi barhau.

• Mae cwyn yn ffansïol os na allai unrhyw unigolyn rhesymol roi unrhyw hygrededd iddi. Mae'n brawf gwrthrychol. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu am ymdrin yn deg ac yn agored â chwynion a sicrhau nad yw defnyddwyr gwasanaeth eraill neu staff y Comisiynydd yn dioddef anfantais oherwydd bod pobl yn gwneud cwynion blinderus, gormesol, difrïol neu ffansïol. Gall Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ysgrifennu at unrhyw

achwynwyr sy’n gwneud cwynion o’r fath i’w hysbysu na fydd eu cwynion yn cael eu trin mwyach ac efallai y byddant yn penderfynu peidio ag ymateb mwyach i achwynydd yn cyflawni unrhyw un o’r meini prawf a amlinellir uchod.

Mae Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn anelu at ymdrin â phob cwyn yn deg ac yn onest ni waeth pwy sy’n gwneud cwyn. Mae Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn trin pob aelod o’r gymuned yn gyfartal ac ni fydd yn dangos tuedd tuag at unrhyw unigolyn neu grŵp penodol. Mae Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ymdrechu i wneud ei gwasanaethau yn hygyrch i bawb.

## 17.0 Hygyrchedd

Os yw’n anodd i chi ddefnyddio’r gwasanaeth hwn (er enghraifft, os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf), os oes gennych anabledd neu os ydych yn dymuno gwneud cwyn yn Gymraeg, cysylltwch â ni ar y manylion cyswllt isod:

Ffôn: 01267 226440

E-bost: opcc@dyfed-powys.police.uk

Os oes arnoch angen unrhyw addasiadau i’ch cefnogi drwy’r system adolygu, amlinellwch y rhain isod. Er enghraifft, os oes gennych nam ar eich golwg, efallai y bydd angen ymateb ysgrifenedig arnoch mewn testun mwy.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â’ch gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i’r heddlu neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am sut y bydd eich data’n cael ei drin, ffoniwch ni ar 01267 226440.

I gael gwybodaeth am sut yr ydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd yn: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cysylltwch-a-ni/mynediad-i-wybodaeth-rydyn-ni-n-dal/.

**Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu bob pedair blynedd, pan fydd newidiadau’n cael eu nodi neu’n ofynnol gan ddeddfwriaeth. Y dyddiad adolygu nesaf yw Hydref 2026.**